PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 27 MEHEFIN 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Lay, Reid-Jones a/ac Taylor |

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR

Nodwyd.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022 yn gofnod cywir.

6 : CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR PENSIYNAU

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau o'r Pwyllgor a gyflwynodd y Pwyllgor Pensiynau.

7 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Nododd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau gyfrifoldeb y Pwyllgor i lywodraethu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn strategol.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Rhoddwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau. Nid oedd unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

i. Nodi'r datblygiadau diweddar yn y broses o sefydlu cronfa fuddsoddi PPC.
ii. Cymeradwyo Cynllun Busnes PPC ar gyfer 2022-2025

8 : Y GOFRESTR RISGIAU

Cedwir Cofrestr Risgiau ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn rhan o'r broses Rheoli Risg Gorfforaethol. Mae'r Gofrestr yn ymdrin â phob agwedd ar reoli'r Gronfa gan gynnwys Buddsoddiadau, Ariannu, Llywodraethu a Gweinyddu.

Rhoddwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor, a oedd yn eitem reolaidd i’r Pwyllgor, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Trafododd yr Aelodau ble y byddai buddsoddiadau Wcráin yn eistedd ar y gofrestr. Dywedodd y swyddogion y gallent fod yn rhan o nifer o gategorïau fel Cyffredinol/Amgylchedd neu dwf tymor hir. Nodwyd mai'r gwaith o reoli'r strategaeth fuddsoddi sy'n gyfrifol am effaith ar y cynllun o benderfyniadau unigol. Nodwyd hefyd bod risgiau o ddigwyddiadau byd-eang ond dylai buddsoddiad pensiwn dros amser ac ar draws llawer o gategorïau leihau'r risgiau hyn.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau.

9 : CYNLLUN BUSNES 2022/23

Cyflawnir y gwaith o weinyddu'r Gronfa Bensiwn gan yr Adran Bensiynau, sydd yn Neuadd y Sir. Mae'r Adran yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau gan gynnwys cadw cofnodion aelodau a gedwir ar y system Altair, rhoi gwybodaeth i aelodau o’r Gronfa, cyfrifo a thalu budd-daliadau i aelodau o’r Gronfa a rhoi cyngor i gyflogwyr y Gronfa.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn cyflwyno Cynllun Busnes y Gronfa ar gyfer 2022/23.

Cafodd yr Aelodau drosolwg cynhwysfawr o’r adroddiad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Nododd yr Aelodau fod y Cynllun Busnes yn cyfeirio at y Tîm Pensiynau ac Aelodau o’r Bwrdd mewn perthynas â chyfathrebu a hyfforddiant, ond gallai gyfeirio at y ffaith mai pwyllgor newydd yw’r Pwyllgor Pensiynau a nodi hyfforddiant perthnasol y dylai aelodau newydd ei wneud. Roedd yr Aelodau o’r farn, os nad yw’n briodol cynnwys hyn yn y Cynllun ei hun, y mae'n rhywbeth y dylid ei drafod.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo’r Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23.

## 10 : ADOLYGIAD O STRATEGAETH WEINYDDU'R GRONFA BENSIWN

Mae Rheoliad 59 Rheoliadau CPLIL 2013 yn nodi y gall Awdurdodau Gweinyddu baratoi a chyhoeddi Strategaeth Weinyddu. Roedd y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi argymell y dylai Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg weithredu Strategaeth Weinyddu.

Cymeradwywyd Strategaeth Gweinyddu'r Gronfa gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2021.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn wedi galluogi'r Pwyllgor i adolygu'r Strategaeth Weinyddu ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Strategaeth wedi cael ei hystyried gan y Bwrdd Pensiynau Lleol yn flaenorol, ac nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cynnig.

Amlinellodd y swyddogion yr adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.  Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo nad oes angen unrhyw newidiadau i Strategaeth Weinyddu bresennol y Gronfa.

## 11 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Nodwyd.

## 12 : DYRANIAD ASEDAU 2022/23

Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Gronfa hon wedi manteisio ar y cyfle i drosglwyddo cyfran sylweddol o'i hasedau i is-gronfeydd a lansiwyd gan PPC. Ar 31 Mawrth 2022 roedd y Gronfa hon wedi buddsoddi £1,700m mewn 4 o is-gronfeydd Ecwiti PPC a 3 o'r cronfeydd Incwm Sefydlog. Roedd gwerth y buddsoddiadau yn is-gronfeydd PPC yn cynrychioli dros 63% o werth y Gronfa ar 31 Mawrth 2022. Yn ogystal, mae £616m ychwanegol, neu bron i 23% o werth y Gronfa hon, wedi'i fuddsoddi yng nghronfa olrhain Carbon Isel BlackRock. Cafodd y gronfa hon ei chaffael ar y cyd â chronfeydd CPLIL eraill Cymru ac mae'n gronfa gyfun i bob pwrpas. Mae dros 86% o asedau'r Gronfa hon yn ôl gwerth felly mewn cronfeydd cyfun ar 31 Mawrth 2022.

Mae sylw PPC wedi troi at ddatblygu is-gronfeydd ar gyfer asedau'r Farchnad Breifat. Byddai adroddiadau diweddaru blaenorol PPC i'r Pwyllgor wedi rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd y broses gaffael ar gyfer y dosbarthiadau asedau hyn. I grynhoi, mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC wedi cymeradwyo penodi dyrannwyr ar gyfer yr is-gronfeydd Dyled Breifat a Seilwaith penagored a'r rheolwyr ar gyfer yr is-gronfa Seilwaith penagored. O ran y dosbarth asedau Ecwiti Preifat, y targed yma yw dod â'r broses gaffael bresennol i ben gydag adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn yr hydref gydag argymhellion ar gyfer y rheolwr/rheolwyr a ffefrir. Byddai hyn yn gadael Eiddo fel y dosbarth asedau olaf i gael ei ystyried a bydd

gwaith yn dechrau yn fuan gyda swyddogion i ystyried y llwybr caffael priodol ar gyfer yr is-gronfa hon.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi i ddiweddaru'r Pwyllgor am y gwaith o ddatblygu Dyraniad Asedau Strategol y Gronfa Bensiwn gan ystyried yn benodol is-gronfeydd Marchnad Breifat newydd PPC. Mae gan y Pwyllgor Pensiynau rôl strategol yn y gwaith o reoli'r Gronfa ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys cymeradwyo'r dyraniad asedau yn unol â chyngor y Panel Cynghori ar Fuddsoddi.

Amlinellodd y swyddogion y materion allweddol o'r adroddiad yn gynhwysfawr ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am arian ac amserlenni Credyd Preifat a Seilwaith. Esboniodd y swyddogion y byddai Credyd Preifat yn dod ymlaen yn ystod y misoedd nesaf, ac mae'n bosib y bydd yn cael ei dynnu i lawr dros ddwy flynedd. O ran seilwaith, gellir tynnu hyn i lawr yn gyflymach o fewn blwyddyn. Roedd hyn yn amodol ar gadarnhad a'r cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael ar y pryd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 12 yr adroddiad, Asedau Marchnad Breifat, a gofynnon nhw ar ba bwynt y byddai'r opsiynau'n cael eu gwerthuso. Esboniodd y swyddogion fod hyn braidd yn symudadwy, ond byddai mwy o wybodaeth ar gael yn yr hydref a byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl hynny.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r gwaith a wnaed gan Aon wrth fodelu newidiadau disgwyliedig i broffil risg ac enillion y Gronfa o ddiwygio Dyraniad Asedau'r gronfa a'r argymhellion o'r adolygiad o adroddiad sef :-

   i. Buddsoddiad o hyd at 7.5% yn is-gronfa Credyd Preifat PPC
   ii. Buddsoddiad o hyd at 7.5% yn is-gronfa Seilwaith Penagored PPC
   iii. Buddsoddiad posibl o hyd at 2.5% yn is-gronfa Ecwiti Preifat PPC

(2) Cymeradwyo Dyraniad Asedau Strategol 2022/23

13 : GWAHARDD Y CYHOEDD

**Roedd yr eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.**

14 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd.

15 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau yw'r cyfarfod ar y cyd â'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar 11 Gorffennaf 2022 am 4:30pm.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiwn ar 28 Tachwedd 2022 am 5pm

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm